

# Eich Adran Chi



**Peidiwch â cholli cyfle!**  
**2023–24**

Gwleidyddiaeth Ryngwladol  International Politics

# Croeso cynnes i'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn Aberystwyth

Rydych chi nawr yn rhan o le arbennig iawn!

Wrth i chi ymuno â chenhedlaeth gyfredol ein myfyrwyr, dyma ragor o fanylion am yr hyn sy'n ein gwneud yn adran mor arbennig.

**Mae gennym enw da am ragoriaeth ledled y byd:**

- Lle bynnag yr ewch chi, bydd pobl sydd â diddordeb gwirioneddol mewn gwleidyddiaeth ryngwladol wedi clywed am Aberystwyth!
- Rydym yn cynhyrchu ymchwil blaenllaw ac a adnabyddir yn rhyngwladol ar ystod o bynciau.

**Hefyd,**

- Yn ôl canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr (NSS) 2023, mae gan yr Adran **sgôr boddhad cyffredinol** ardderchog o 86%.
- Yn ogystal, llwyddwyd i sicrhau sgoriau rhagorol mewn meysydd penodol o'n haddysgu, er enghraifft:
- Mae 95% o fyfyrwyr yn cytuno bod staff yn dda am egluro pethau.
- Roedd 91% o fyfyrwyr yn ystyried fod eu cwrs yn eu hysgogi'n ddeallusol.
- Cytunodd 96% o fyfyrwyr eu bod wedi gallu cysylltu â staff pan oedd angen.

Edrychwn ymlaen at barhau i ddarparu awyrgylch astudio ardderchog – a gweithio gyda chi i gyflawni hyn!

**Yr Adran hon oedd y gyntaf o'i math yn y byd, ond gallwn ymffrostio mewn nifer o gamau 'cyntaf' eraill hefyd!**


## **Y darlithydd cyntaf ym maes Astudiaethau Strategol**

Ym 1962, penodwyd John Garnett yn ddarlithydd cyntaf Prydain ym maes astudiaethau strategol, is-faes pwysig yn ymdrin â'r chwyldro niwclear.



## **Cuddwybodaeth**

Penododd yr Adran ddarlithydd cyntaf Prydain mewn astudiaethau cudd-wybodaeth, yn ogystal â sefydlu Canolfan Astudiaethau Cuddwybodaeth a Diogelwch Rhyngwladol hynod lwyddiannus.



## **Iechyd Byd-eang yn Aber**

Yn 2007 sefydlwyd y Gadair UNESCO gyntaf yng Nghymru, a ddaliwyd gan yr Athro Colin McInnes, i astudio iechyd byd-eang - yn enwedig HIV/AIDS - a polisi tramor a diogelwch.



## **Y cynlluniau gradd cyntaf mewn 'gwleidyddiaeth' trwy gyfrwng y Gymraeg**

O'r 1980au ymlaen, buom yn arloesi â dysgu gwleidyddiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym wedi parhau i ehangu'n darpariaeth i gynnwys gwleidyddiaeth ryngwladol ac rydym yn ddarparwyr pwysig ym maes addysgu cyfrwng Cymraeg.

# Cyfleoedd All Newid Eich Bywyd!

A chithau'n fyfyrwr Gwleidyddiaeth Ryngwladol, mae'r Adran yn cynnig cyfoeth o weithgareddau all-gyrsiol i hybu eich datblygiad personol a'ch gwneud yn fwy cyflogadwy.



- Cynorthwyo myfyrwyr eraill trwy fod yn **Fentor i Fyfyrwyr Blwyddyn Gyntaf** neu'n **Fentor Ffordd Hyn**.
- Cynrychioli a chymryd rhan – y **Pwyllgor Ymgynghorol Staff/Myfyrwyr**.
- Sesiynau sgiliau – gweithgareddau a gydlynir gan Swyddog Cyflogadwyedd ac Ymgynghorydd Gyrfaoedd yr Adran wedi'u **teilwra i fyfyrwyr Gwleidyddiaeth Ryngwladol**.
- Profiadau ymarferol – **sesiynau gyda chyn-fyfyrwyr a chyflogwyr**.
- Profiad o newyddiaduraeth – **cylchgrawn 'Interstate'**.
- Cyfrannu at gymdeithas greadigol – **Cymdeithas 'Interpol'**.
- Profiad cyffrous wrth efelychu sefyllfaoedd – **Gemau Argyfwng**.
- Teithio rhyngwladol – **rhaglenni cyfnewid**.
- Profiad uniongyrchol o fywyd gwleidyddol – **y cynlluniau Lleoliad Gwaith**.

## Pam ddylswn i gymryd rhan?

Bydd y gweithgareddau hyn yn cyfoethogi'ch cyfnod fel myfyrwr, trwy ehangu eich sgiliau a'ch datblygiad personol, a hybu eich hyder. Byddwch yn elwa o'r cwbl – **a bydd y ddarpariaeth yn eich gwneud yn fwy tebygol o gael swydd a llwyddo ym myd gwaith**.

## Rhagor o fanylion?

- Cadwch olwg am negeseuon e-bost yn eich gwahodd i gyfarfodydd
- Cadwch olwg ar ein cyfrifon Twitter: **@InterpolAber** a **@GwleidAber**
- Gweithgareddau a arweinir gan fyfyrwyr – i'w gweld yn **Ffair y Glas** a chadwch lygad am negeseuon e-bost hefyd!

# Y Pwyllgor Ymgynghorol Staff Myfyrwyr



Bob tymor, mae'r Adran yn cwrdd gyda Chynrychiolwyr Myfyrwyr i drafod unrhyw broblemau neu syniadau newydd. Hoffech chi gyfrannu?

Mae'r Pwyllgor Ymgynghorol Staff a Myfyrwyr yn chwarae **rhan hanfodol ym mywyd yr adran.**

Mae'r Pwyllgor yn:

- **Caniatáu i fyfyrwyr i roi adborth ac awgrymu** syniadau, gwneud ymholiadau, nodi problemau a'n cynorthwyo i ddatblygu cynlluniau newydd.
- **Bwydo mewn i lunio polisi adrannol** ar ystod eang o faterion, gan gynnwys datblygu cynlluniau gradd a modiwlau newydd, a cynlluniau amrywiaeth.

## Sut allaf i gyfrannu at y gwaith?

**Gall unrhyw fyfyrwr gael ei ethol.** Mae ar y pwyllgor swyddi'n cynrychioli: myfyrwyr blwyddyn gyntaf; myfyrwyr ail flwyddyn; myfyrwyr trydedd flwyddyn; myfyrwyr cyfrwng Cymraeg; myfyrwyr anrhydedd cyfun; a myfyrwyr rhyngwladol. Etholir cynrychiolwyr am **gyfnod o flwyddyn** a gallant sefyll i gael eu hail-ethol.

- Bydd Undeb y Myfyrwyr yn cynnal etholiadau am lefydd ar y Pwyllgor Ymgynghorol, a bydd modd i chi gynnig eich hun fel ymgeisydd rhwng **25 Medi a 10 Hydref**.
- Bydd yr etholiadau'n cael eu cynnal yr wythnos ganlynol, **rhwng 16 ac 19 Hydref**. Cadwch olwg ar eich e-bost i gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r etholiadau!
- Bydd pob cynrychiolydd newydd yn cael **hyfforddiant**, wedi'i drefnu gan Undeb y Myfyrwyr

Cewch fwy o wybodaeth yma: [Etholiadau \(umaber.co.uk\)](http://umaber.co.uk)

## Sut i gysylltu â'ch cynrychiolydd

- Edrychwch ar yr hysbysfwrdd (yr un ar y grisiau i lawr gwaelod yr Adran)
- E-bostiwch yn uniongyrchol
- Gallwch gael mwy o wybodaeth am eich cynrychiolydd yma: [Danganfod Cynrychiolwyr \(umaber.co.uk\)](http://umaber.co.uk)

# Rhaglen Ryngwladol Cyfnewid Myfyrwyr

Mae gennym gynlluniau cyfnewid academaidd â nifer o wledydd, yn cynnwys: Awstralia, Canada, Tsieina, Ffindir, Ffrainc, Yr Almaen, Yr Iseldiroedd, Gwlad Pwyl, Sbaen a Thwrci.

- Gall myfyrwyr yr adran astudio dramor am **un semester yn eu hail flwyddyn (am flwyddyn gyfan ar y cynlluniau gradd pedair blynedd)**.
- I'r rhai nad ydyn nhw'n gwneud cwrs gradd gydag iaith, gwneir yr holl waith addysgu yn **Saesneg**.

## Pwy all gymryd rhan?

- Dim ond i **fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf** mae'r cynllun **yn agored** ac mae'r cyfnod cyfnewid **yn digwydd yn yr ail flwyddyn**.
- Gall **pob un o fyfyrwyr yr Adran** wneud cais, gan gynnwys myfyrwyr cyfun a phrif bwnc/is-bwnc.

Mae nifer y **lleoedd yn gyfyngedig**, felly dewisir ymgeiswyr trwy gyfweiliadau cystadleuol. Rydym yn chwilio am fyfyrwyr **brwdfrydig** ac sy'n teimlo'n gryf ynglŷn ag astudio gwleidyddiaeth ryngwladol, sy'n gallu **gweithio'n galed a dyfal** dan bwysau, ac sy'n **abl i addasu'n gyflym** i astudio mewn amgylchedd gwahanol.

## Sut alla i gael rhagor o wybodaeth?

Byddwn yn cynnal cyfarfod ar **ddydd Mercher 1 Tachwedd am 1.00pm** lle gallwch gael yr holl fanylion, a chlywed wrth fyfyrwyr cyfnewid am eu profiadau.

Neu e-bostio: Dr Charalampos Efstathopoulos, [che15@aber.ac.uk](mailto:che15@aber.ac.uk)



## Lleoliadau Gwaith



Ceir profiad uniongyrchol o fywyd gwleidyddol trwy weithio i gynrychiolwyr gwleidyddol yn Nhŷ'r Cyffredin neu Senedd Cymru.

- Bydd myfyrwyr yn gweithio yn swyddfa Aelod Seneddol yn San Steffan neu Aelod Seneddol yn Senedd Cymru yng Nghaerdydd, am 4 – 6 wythnos yn yr haf.
- Yn gyffredinol, mae'r gwaith yn cynnwys ysgrifennu datganiadau i'r wasg ac ymdrin â materion etholaethol, ond mae hefyd yn cynnwys mynd i ddigwyddiadau (rhai ohonynt yn bwysig!). Yn y gorffennol, mae myfyrwyr wedi cyfrannu at ymgyrchoedd cyn-etholiadol hyd yn oed.

## Pwy all gymryd rhan?

- Dim ond i fyfyrwyr yr ail flwyddyn mae'r cynllun yn agored ac mae'r broses ymgeisio yn un gystadleuol. Dewisir y myfyrwyr llwyddiannus ar ôl cyfweld ymgeiswyr.
- Rydyn ni'n chwilio am fyfyrwyr **brwdfrydig** sy'n teimlo'n gryf ynglŷn â gwleidyddiaeth ryngwladol, sydd â **sgiliau rhyngbersonol da**, ac sy'n gallu gweithio'n galed a diwyd dan bwysau mewn amgylchedd an-academaidd.

## Rhagor o wybodaeth

Cynhelir cyfarfod ddydd **Mercher 1 Tachwedd am 2.00pm** lle cewch yr holl fanylion.



Cadwch olwg am neges atgoffa trwy e-bost neu e-bostiwch Dr. Gerry Hughes, [rbh@aber.ac.uk](mailto:rbh@aber.ac.uk)

# Y Gêm Argyfwng

Mae'r gemau argyfwng yn weithgareddau hynod boblogaidd sy'n cymryd lle eleni yn Hawkstone Park, Sir Amwythig ar 8–10 Rhagfyr. Trwy efelychu digwyddiadau gwleidyddol, cewch ddysgu am agweddau o wleidyddiaeth ryngwladol na cheir eu dysgu mewn darlithoedd a seminarau. Maent yn rhoi cyfle gwyh i ddatblygu sgiliau amgen megis trafod, cynllunio, rheoli tîm, a siarad cyhoeddus – sgiliau holl bwysig ar gyfer eich gyrfa i'r dyfodol.

## Beth yw Gêm Argyfwng?

Rhoddir 'senario' i'r myfyrwyr, wedi'i seilio ar ddigwyddiadau diweddar go iawn rhywle yn y byd. Caiff y myfyrwyr wedyn eu rhannu'n dimau amrywiol, gan chwarae rhan arweinydd gwlad benodol, adran llywodraeth, corfforaeth rhyngwladol, corff anllywodraethol, sefydliad rhyngwladol, neu grŵp parafilwrol. Rhaid i'r myfyrwyr gadw 'yn y cymeriad' gyda'r nod o efelychu, mor agos ag y gellir at y gwir, yr hyn sy'n digwydd rhwng amrywiol weithredwyr rhyngwladol. Mae'r profiad 'amser real' hwn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr brofi eu galluoedd i gynllunio'n strategol, gweithio gydag eraill, ymgysylltu â diplomyddiaeth (ac, efallai, ychydig o dwyllo hefyd!) a rhoi eu hunain yn esgidiau'r rhai sy'n gyfrifol am wynebu rhai o heriau mwyaf mewn gwleidyddiaeth ryngwladol.



## Am fwy o wybodaeth

Bydd mwy o wybodaeth am y 'senario' ar gyfer y Gêm Argyfwng, a sut i gofrestru i gymryd rhan, yn cael eu rhannu ar ddechrau Semester 1. Bydd nifer cyfyngedig o leoedd ar gael, felly cadwch olwg am eich e-byst!



# Cyflogadwyedd

Defnyddir y term yma i ddisgrifio'r **sgiliau, y ddealltwriaeth a'r nodweddion personol** sy'n helpu graddedigion i ddod o hyd i swydd ac i fod yn **llwyddiannus yn eu gyrfa**. Mae cyflogwyr yn chwilio am raddedigion sy'n sefyll allan, o ganlyniad i'r sgiliau a'r profiadau sydd ganddynt. Mae cynyddu'ch cyflogadwyedd hefyd yn gallu cyfrannu at eich datblygiad personol a'r cyfraniad y gallwch wneud i'ch cymunedau.

## Gweithdai Cyflogadwyedd yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol

### Semester 1:

- **CV a Llythyr Cais:** sut i ysgrifennu CV, a gwneud y mwyaf o'ch sgiliau a'ch profiadau
- **Profiad Gwaith ac Interniaethau:** pwysigrwydd profiad gwaith o safon uchel, a sut i ddod o hyd brofiad gwaith neu interniaeth.

### Semester 2:

- **Cynllunio Gyrfa:** chwilio am swydd neu gwneud cwrs Meistr: beth yw'r yrfa gywir i chi?
- **Technegau Cyfweiliad a Chanolfannau Asesu:** beth i ddisgwyl yn ystod y broses
- recriwtio.

Byddwn hefyd yn gwahodd nifer o gyn-fyfirwyr blaenllaw yr Adran i siarad am eu profiadau gyrfaoel.

## Cwrdd a chyflogwyr

- Bydd cyn-fyfirwyr sydd nawr mewn swyddi gwych yn dod i siarad â myfyrwyr – a gallwn hefyd eich cynorthwyo i gysylltu â nhw er mwyn i chi gael eu cyngor!
- Bydd Ffeiriau Gyrfaoedd trwy gydol y flwyddyn.
- Wyddoch chi fod gan y Brifysgol gynllun **Blwyddyn mewn Gwaith**, yn ogystal â **chynlluniau gradd sy'n cynnwys cyflogaeth fel rhan o'r cwrs?**

## Am fwy o wybodaeth

- Bydd ein Swyddog Cyflogadwyedd, Dr. Gerry Hughes ([rbh@aber.ac.uk](mailto:rbh@aber.ac.uk)) yn danfon gwybodaeth i chi yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn.
- Cysylltwch ac Ymgynghorydd Gyrfaoedd yr Adran, Tony Orme ([awo@aber.ac.uk](mailto:awo@aber.ac.uk))

# Profiad Gwaith yn yr Adran

## Cyfle i fod yn 'intern' gyda Sefydliad Coffa David Davies

Mae Sefydliad Coffa David Davies (DDMI) yn ganolfan ymchwil bwysig yn yr Adran. Mae ganddi



raglen lawn o siaradwyr a gweithgareddau sy'n anelu at ddatblygu gweledigaeth normadol sefydlydd y ganolfan, sef yr Arglwydd David Davies. Yn ganolog i'r weledigaeth yma mae cwestiynau am heddwch a chyfiawnder ym materion y byd. Mae'r DDMI yn hyrwyddo ymchwil trwy rwydweithio â chymunedau academiaidd ac anacademaidd yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.

Bydd y DDMI yn penodi hyd at bump 'intern' ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2023-24 o blith myfyrwyr israddedig yr ail neu'r drydedd flwyddyn, neu fyfyrwyr MA yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol. Trwy gydol y flwyddyn bydd disgwyl i'r darpar 'interniaid' helpu gyda rhedeg gweithgareddau craidd DDMI. Mae hyn yn cynnwys trefnu darlithoedd, sgysrsiau, gweithdai a digwyddiadau eraill a gynhelir gan y DDIM; cynnal gwefan a chyfrif Twitter y sefydliad; a darparu cymorth ymchwil.

I gael mwy o wybodaeth ar **sut i wneud cais**, cysylltwch â Chyfarwyddwr y DDMI, Jan Ruzicka, [jlr@aber.ac.uk](mailto:jlr@aber.ac.uk). Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **dydd Gwener, 6 Hydref 2023 am 4.00pm**.

## Myfyrwyr-Llysgennaid

Mae myfyrwyr-llysgennaid yn cael eu cyflogi i gynorthwyo ar Ddiwrnodau Agored ac Ymweld y Brifysgol. Mae'r llysgennaid yn croesawi darpar fyfyrwyr a'u teuluoedd, ac yn rhannu eu profiadau o fod yn fyfyrwr yn Aberystwyth. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch ag Alistair Shepherd, Cyfarwyddwr Derbyn, Recriwtio a Marchnata yr Adran, Dr Lucy Taylor ([lift@aber.ac.uk](mailto:lift@aber.ac.uk)) neu Gyfarwyddwr Astudiaethau Cymraeg yr Adran, Dr Catrin Edwards ([cwe6@aber.ac.uk](mailto:cwe6@aber.ac.uk)).

## AberYmlaen

Mae hwn yn gynllun gan y Brifysgol i gynnig amryw o gyfleoedd a phrofiadau gwaith i fyfyrwyr a graddedigion diweddar. Mae'n ffordd wych o ddysgu sgiliau newydd a datblygu'ch CV! Am fwy o wybodaeth am y cynllun a sut i ymgeisio, ewch i edrych ar [wefan AberYmlaen](#).

# Datblygu Sgiliau a Gyrfa

## Tony Orme, Ymgynghorydd Gyrfaedd yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol [awo@aber.ac.uk](mailto:awo@aber.ac.uk)

Tony yw Ymgynghorydd Gyrfaedd yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, ac mae wrth law i gynorthwyo a chefnogi myfyrwyr. Yn ogystal â threfnu nifer o 'sesiynau sgiliau', gallwch drefnu i gwrdd â Tony am sgwrs bersonol unrhyw bryd yn ystod y tymor. Dewch heibio i gael sgwrs a gofyn am gymorth wrth wneud cais am interniaeth, datblygu eich CV, a chynllunio gyrfa.



## Paratoi ar gyfer y dyfodol: Gweithdai a Gweminarau

### Dod o hyd i'ch Hyder: 2 Hyd - 20 Hyd

Dydd Mawrth	03 Hydref	10.10am	Sut i ddod o hyd i swydd ran-amser Hyderus am eich gyrfa – cwrdd â'ch Gwasanaeth Gyrfaedd dros bryd canol bore	Ystafell yr Undeb
Dydd Iau	05 Hydref	11.10am		Picture House
Dydd Mawrth	10 Hydref	11.10am	Cyflwyno'n Hyderus	TEAMS
Dydd Llun	16 Hydref	11.10am	Defnyddio gyrfaedd ABER i ddod o hyd i swyddi, digwyddiadau, lleoliadau gwaith a chyngor	Ystafell yr Undeb

### Paratoi ar gyfer y Gweithle: 23 Hyd - 10 Tach

Dydd Llun	23 Hydref	11.10am	Mynd i ffair yrfaedd	TEAMS
Dydd Mawrth	24 Hydref	11.10am	Astudiaethau Uwchraddedig	Ystafell yr Undeb
Dydd Mawrth	24 Hydref	10:30	Sut i rwydweithio a meithrin cyswllt â chyflogwyr – Karl Swanepoel – Revolancer	TEAMS
Dydd Mawrth	31 Hydref	10.10am	Sut i ysgrifennu CV a llythyrau cyflwyno gwych	Ystafell yr Undeb
Dydd Iau	02 Tach	11:10	Addasiadau a datgelu	I'w gadarnhau
Dydd Llun	06 Tach	12.10pm	Sut i lwyddo mewn cyfweiliadau	Ystafell yr Undeb
Dydd Mawrth	07 Tach	10.10am	Cynlluniau i Raddedigion - Chwalu Mythau !!	TEAMS

**Gŵyl Ddigidol:  
6 Tach - 10 Tach**

Dydd Mawrth	07 Tach	11.10am	Sut mae defnyddio LinkedIn?	TEAMS
Dydd Iau	09 Tach	10.10am	Gwella eich Ôl-troed Digidol a'ch Cysgod Ar-lein	TEAMS

**Dod o hyd i Gyfeiriad eich Gyrfa:  
13 Tach - 1 Rhag**

Dydd Mercher	15 Tach	11.10am	Defnyddio Prospects (dewch â'ch dyfais eich hun)	TEAMS
Dydd Iau	16 Tach	11.10am	Gwneud cais am hyfforddiant athrawon	Ystafell yr Undeb
Dydd Iau	23 Tach	14:10	Datblygu meddylfryd i ganolbwyntio ar Dwf.	Ystafell yr Undeb
Dydd Iau	30 Tach	14:10	Deall eich dulliau dysgu'ch hunan	Ystafell yr Undeb

**Lles Gyrfaol:  
4 Rhag - 8 Rhag**

Dydd Mawrth	05 Rhagfyr	11:10	Mins-pei canol bore, cwis a sgwrs am yrfaedd – yn cynnwys Cymorth i Fyfyryr, staff CRS	Picture House
-------------	------------	-------	--	---------------

Am fwy o fanylion ac i archebu lle ewch i wefan [gyrfaeddABER](http://gyrfaeddABER). Gall dyddiadau ac amseroedd gweithdai newid, gwiriwch ABERCareers i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

## Am fwy o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am ddigwyddiadau Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd, i drefnu apwyntiadau i gwrdd â'ch Ymgynghorydd Gyrfaoedd ac i weld y wybodaeth ddiweddaraf am swyddi gwag, ewch i wefan [gyrfaeddABER](http://gyrfaeddABER) - bydd angen i chi gofrestru eich manylion yma y tro cyntaf i chi ymweld â AberCareers).



# Mentora - Cyngor Gyrfaol a Chyfleoedd Rhwydweithio

## Beth yw eFentora?

Cyfle i fyfyrwyr cyfredol Aberystwyth, cyn-fyfyrwyr a gweithwyr proffesiynol roi a derbyn cyngor drwy gynllun mentora ar-lein. I gofrestru, ewch i'r [wefan eFentora](#).

## Gall mentoriaid gynnig:

- cyngor trwy e-bost;
- adborth ar CV a ffurflenni cais;
- golwg gyffredinol fuddiol ar yrfa benodol;
- ymweld â gweithle mentor;
- cyfleoedd am brofiad gwaith/cysgodi.

Gall cynllun eFentora Aberystwyth gynorthwyo myfyrwyr i rwydweithio ac ymestyn eu cyfleoedd. Chwiliwch drwy broffiliau'r mentoriaid yn ôl proffesiwn, diddordebau neu leoliadau, a gallwch greu rhwydwaith gefnogol yn sydyn a hawdd.



## Manteision cael eich mentora

- Cyngor ymarferol ar dechnegau chwilio am swyddi a sgiliau;
- Creu rhwydwaith i'ch cynorthwyo i gyrraedd y ris gyntaf ar ysgol yr yrfa;
- Ehangu'ch gorwelion gyrfa i weld yr hyn y mae graddedigion Aber wedi'i wneud;
- Cefnogaeth un-i-un gan weithiwr proffesiynol profiadol;
- Cyfle i rwydweithio a chreu cysylltiadau mewn diwydiant;
- Cael mewnwelediad unigryw i swydd a gyrfa;
- Datblygu gwybodaeth am sgiliau arbenigol.



# Mae nifer o gyn-fyfyrrwyr yr Adran yn fentoriaid ar y cynllun.

## Josh Fedder

Mae Josh yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol yn **Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol**, Oxfordshire. Mae Josh wedi bod yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Sifil ers sawl blwyddyn, ac mae'n ymgeisydd llwyddiannus i gynllun Arweinwyr y Dyfodol y Gwasanaeth Sifil. [Cofrestrwch](#) ar gyfer eFentora i weld proffil llawn Josh ac i gysylltu gydag ef.

## Dyma raddedigion eraill o'r Adran sy'n hapus i fentora myfyrwyr cyfredol:

Sarah Bennett	Is-Bennaeth <b>Cenhadaeth y DU i ASEAN</b>
Jim Poole	Cyn Uwch Was Sifil, <b>Adran Amddiffyn, Swyddfa'r Cabinet</b>
Owen Hathway	Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Polisi a Materion Cyhoeddus, <b>Chwaraeon Cymru</b>
Nick Williams	Swyddog Prosiect Cynorthwyol, <b>NPO Development Initiatives</b>
Neal Barcoe	Is-Gyfarwyddwr, <b>Family Justice Policy</b>
Kok Liang Chew	Cyngor Cyffredinol, <b>Byddin Dirioogaethol Malaysia</b>
Ross Paton	Swyddog Gwytnwch Cymunedol, <b>Llywodraeth Leol</b>

## Profiad Sneha:



“Bu fy mentor o gymorth i mi wrth feddwl trwy opsiynau gyrfa a pha gwrs Meistr i'w astudio, fy nghyflwyno i'w rwydwaith broffesiynol, ac i gysylltu a chyfwelai ar gyfer fy nhraethawd hir. Fe fu o gymorth hefyd pan roeddwn yn awyddus i ddatblygu fy sgiliau methodolegol lle nad oedd hyn wedi bod yn bosib yn ystod fy nghwrs gradd. Fe sylweddolais na fyddai fy ngradd, ar ei phen ei hun, yn dysgu popeth

i mi; roedd y cynllun eFentora yn fodd i hybu fy mhroffil ymhellach. O ganlyniad i gael fy mentora, mi ddeallais yn well y gwahanol ffyrdd y gellir datblygu gyrfa ym maes polisi. Erbyn hyn, rwy'n gweithio fel Dadansoddwraig Ymchwil, ac mae fy nealltwriaeth o ddadansoddi ac ymchwil wedi ei siapio gan y cynllun mentora a'r cyngor dderbyniais wrth fy mentor.”

Mae Sneha yn gweithio fel Dadansoddwraig Ymchwil i'r felin drafod amddiffyn a diogelwch, Royal United Services Institute. Fe feithrinodd berthynas hir gyda'i mentor yn ystod ei chyfnod yn astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth ac wedi iddi orffen ei gradd.

Gallwch gofrestru ar gyfer y cynllun eFentora fan [hyn](#).

# Y Gymdeithas Gwleidyddiaeth Ryngwladol

Mae'r Gymdeithas Gwleidyddiaeth Ryngwladol (GGR) yn Aberystwyth yn grŵp o fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn gwleidyddiaeth, boed hynny'n faterion domestig a/neu dramor ac sy'n trefnu amrywiaeth o siaradwyr gwadd, cymdeithasau, a digwyddiadau eraill. Gall unrhyw fyfyrwr, o unrhyw adran, ymuno â ni.

Fel cymdeithas, rydym yn trefnu nifer o ddigwyddiadau trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys:

- Gwahodd **siaradwyr** i'r Brifysgol i drafod ystod eang o faterion a'u profiadau o fod ynghlwm â gwleidyddiaeth.
- Sesiynau **cymorth academiaidd** i gefnogi myfyrwyr sy'n astudio Gwleidyddiaeth Ryngwladol;
- **Nosweithiau cymdeithasol** yn nhref Aberystwyth, rydym yn bwriadu trefnu digwyddiadau a gweithgareddau wythnosol – a'r rhain yn amrywio o crôl tafarn i chwaraeon;
- Triplau i lefydd gwahanol sydd ag arwyddocâd neu hanes gwleidyddol, gan gynnwys y Senedd.

## Ble gallwch chi ein gweld?

Digwyddiadau sydd i ddod yn ystod y pythefnos nesaf.

- Ar y **26ain o Fedi** (dydd Mawrth) mae gennym ein digwyddiad cymdeithasol cyntaf! Ceir mwy o wybodaeth am hyn a thema'r digwyddiad ar ein tudalen cyfryngau cymdeithasol (isod), gwnewch yn siŵr i'w dilyn.
- Rydym yn mynychu rhai o'r digwyddiadau adrannol: gan gynnwys y derbyniad i'r glas **ddydd Llun 25ain o Fedi** a'r ford gron adrannol **ddydd Gwener 29ain o Fedi**.
- Byddwn hefyd yn Ffair y Glas ddydd Mercher.
- Byddwn hefyd yn cynnal digwyddiad coffi i chi weld sut rydych yn dod yn eich blaenau yn yr adran ac i'ch helpu gydag unrhyw broblemau sydd gennych. Os na allwn ni helpu, gallwn eich cyfeirio at aelod o staff y gall.

Os yw hyn yn swnio fel rhywbeth y byddech chi'n ei fwynhau, dilynwch ein cyfrif ar gyfryngau cymdeithasol, dewch yn aelod ac ymunwch â'n rhestr bostio. Dyma'r dolenni:

Ebost: [scty16@aber.ac.uk](mailto:scty16@aber.ac.uk)

Rhestr bostio ac aelodaeth: <https://www.abersu.co.uk/society/ips/>

Instagram: [https://www.instagram.com/aber\\_interpol/](https://www.instagram.com/aber_interpol/)

# Model Cenhedloedd Unedig (Model CU)



Yn gymdeithas hon rydym yn rhoi cyfle i chi drafod y materion sy'n effeithio ar ein byd mewn ystod eang o efelychiadau gan ddefnyddio fformat ACDUM y Cenhedloedd Unedig. Yn aml mae'n rhaid i gyfranogwyr amddiffyn gweithgareddau eu gwledydd dewisol ar ystod eang o bynciau. Bydd pawb yn ceisio cyflwyno penderfyniadau sydd naill ai o fudd iddynt neu gyflwyno feto ar gynigion sy'n niweidiol i'w buddiannau.

Nid oes angen i chi feddu ar unrhyw wybodaeth flaenorol o'r pwnc i gymryd rhan cyn belled â'ch bod yn barod i ymchwilio i safbwyntiau eich gwlad ar y pwnc dan sylw.

Mae digwyddiadau blaenorol Model y Cenhedloedd Unedig wedi cynnwys 'Argyfwng Ffoaduriaid' a gynhaliwyd gan yr UNHRC neu 'Craith ar Myanmar' a gynhaliwyd gan ASEAN. Rydym hefyd yn cynnal cyfarfodydd o'r gorffennol megis 'Cynhadledd Yalta' a'r 'Gyngres Vienna'.

## Digwyddiadau Argyfwng

Wedi'u seilio ar y gemau adrannol hynod lwyddiannus, mae'r Gemau Argyfwng yn efelychiadau deinamig o argyfyngau geo-wleidyddol. Y llynedd, mae'r rhain wedi cynnwys digwyddiadau fel 'Rhyfel Ffranco-Prwsia' ac 'Argyfwng Suez 1956'. Gwaith tîm, problemau cymhleth, bargeinion ystafell gefn a chymhwysio datrysiadau creadigol yw'r hyn sy'n gwneud y Gemau Argyfwng yn unigryw ac yn gyffrous. Nid oes angen i chi feddu ar wybodaeth flaenorol o'r senario er mwyn cymryd rhan yn ein Digwyddiadau Argyfwng.

Cadwch lygad ar dudalen [gwê](#) y gymdeithas (ACMUN SU) ac [Instagram](#).





# INTERSTATE JOURNAL

*Journal of Politics and International Relations* / *Cyfnodolyn Gwleidyddiaeth a Gwleidyddiaeth Rhyngwladol*

## Interstate




Mae'r cyfryngau yn holl-bwysig ar gyfer siapio'r byd gwleidyddol; cymrwch ran!

Sefydlwyd yr *Interstate Journal of Politics and International Relations* yn 1965. Mae'n gyfnodolyn academaidd sy'n cael ei redeg gan fyfyrwyr israddedig yr Adran Wleidyddiaeth Ryngwladol. Cyhoeddir un rhifyn y flwyddyn sy'n canolbwyntio'n bennaf ar wleidyddiaeth gyfoes. Croesawir hefyd cyfraniadau i'n blog sy'n agored i ddarnau sy'n trafod unrhyw agwedd ar wleidyddiaeth ryngwladol, domestig neu hanesyddol o bwys.


Mae Interstate yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr – o'r Flwyddyn Gyntaf hyd at fyfyrwyr Meistr – i gyhoeddi ochr yn ochr ag ysgolheigion blaenllaw a ymarferwyr. Mae'n cynnig gofod lle gall myfyrwyr feithrin sgiliau newydd a datblygu eu diddordebau academaidd.

Mae croeso i bawb ymuno â ni – cyfrannwch drwy ysgrifennu, olygu, neu redeg y cyfnodolyn.

- Gallwch ddarllen rhifau diweddaraf Interstate [yma](#).
- Am fwy o wybodaeth, edrychwch ar ein tudalen [Facebook](#) a'n cyfrif [Trydar](#). Gallwch e-bostio hefyd: [interstate@aber.ac.uk](mailto:interstate@aber.ac.uk).
- Gallwch hefyd ein e-bostio: [intestaff@aber.ac.uk](mailto:intestaff@aber.ac.uk)



## leithoedd i bawb ...



Mae dysgu iaith newydd yn rywbeth all gyfoethogi'ch bywyd...ac mae'n wych ar gyfer eich CV. Pam na gymrwch fantais o gyrsiau'r Brifysgol i ddysgu iaith newydd eleni?

Dysgu Gydol Oes   
Lifelong Learning

Campws Penglais, P5

01970 621580 [dysgu@aber.ac.uk](mailto:dysgu@aber.ac.uk)

leithoedd Modern